
# Y brecwast anhygoel

**www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther**





Roedd disgyblion Iesu'n drist. Roedden nhw'n methu Iesu'n fawr, er eu bod wedi clywed fod pobl wedi gweld Iesu'n fyw unwaith yn rhagor wedi iddo godi o farw'n fyw!



Roedd Simon Pedr, Tomos, Nathanael, Iago, Ioan a dau ffrind wrth Lyn Galilea. "Rydw i'n mynd i bysgota," meddai Simon Pedr ac aeth ei ffrindiau gydag ef.




Ddwywaith ers i Iesu farw ar y groes roedd pobl wedi dweud eu bod wedi ei weld yn fyw. "Allai hynny fod yn wir?" oedden nhw'n ei feddwl. Wnaethon nhw ddim dal yr un pysgodyn er iddynt bysgota trwy'r nos.




Y bore canlynol safodd Iesu ar y lan ....ond nid oedd y disgyblion yn gwybod mai Iesu oedd o. . Galwodd Iesu arnynt, " Wnaethoch chi ddal unrhyw beth?" "Naddo,"atebon nhw'n ddigalon.



"Taflwch eich rhwyd i'r ochr arall," meddai Iesu. Wnaethon nhw ddal cymaint o bysgod nes y bu'n rhaid iddynt alw ar ffrindiau oedd mewn cwch cyfagos i ddod i'w helpu i dynnu'r rhwyd i'r cwch!



Roedd yn waith mor galed a chwyslyd a bu'n rhaid iddynt dynnu eu dillad allanol! Yna sylweddolodd Ioan mai Iesu oedd yno! "Pedr, edrycha! Yr Arglwydd sydd yna," gwaeddodd.



Gwisgodd Pedr ei ddillad allanol a nofiodd i'r lan. Roedd o mor gyffrous i weld fod Iesu'n fyw. Dyma'r trydydd tro i Iesu gael ei weld wedi iddo atgyfodi o'r meirw!



Roedd Iesu wrthi'n coginio pysgod ar y tân. Rhannodd y disgyblion y brecwast anhygoel hwn gydag Iesu a bwytaodd ef gyda nhw hefyd. Roedd Ioan, un o'r disgyblion yno ac fe ysgrifennodd yr hanes fel y gallwn ei ddarllen yn y Beibl.